Abbey Grange Inn, Llandysilio-yn-lâl
Llangollen, Sir Ddinbych, LL20 8DD

ASTUDIAETH ACHOS

Medi 2012

Mae tafarn yr Abbey Grange wedi bod yn nwylo teulu Stephen Evans ers deugain mlynedd. Mae'r dafarn yn sefyll ger yr enwog Bwlch yr Oernant yn Sir Ddinbych yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Gerllaw mae Abaty Glyn y Groes sy'n dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, a nifer o feysydd carafanau hefyd.

Er mai pentref bychan o ryw ugain tŷ yw Llandysilio-yn-lâl mae'r Abbey Grange nid yn unig yn gwasanaethu'r cwsmeriaid lleol, ond y bobl sy'n pasio a'r ymwelwyr sy'n dod am wyliau.

Mae Stephen a'i wraig Llinos yn hen lawiau ar arallgyfeirio. Mae ganddyn nhw naw ystafell wely i westeion yn y dafarn yn ogystal â bragdy bychan. Fodd bynnag, roedd un peth yn brin iawn yn yr ardal – rhywbeth i ddiddori plant.

Oherwydd bod Llandysilio -yn -lâl yn bentref mor anghysbell, prin yw'r cyfleusterau i blant sy'n ymweld â'r ardal gyda'u rhieni. Ond, gyda chymorth sefydliadau megis Y Dafarn yw'r Galon a Chadwyn Clwyd, yn ogystal â chefnogaeth ariannol prosiect Cydweithredu y Cynulliad Cenedlaethol, ymgeisiodd Stephen am grant er mwyn adeiladu man chwarae cymunedol arbennig yn ardd enfawr y dafarn.

Mae'r man chwarae newydd wedi ei hadeiladu ar ffurf cwrs antur ac yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch diweddaraf. Heb os, mae'n cynnig profiad dymunol iawn a llond gwlad o hwyl i blant o bob oed.

Mae croeso i unrhyw un ddefnyddio'r man chwarae cymunedol. Yn wir, bu cryn ddefnydd ohono eisoes dros yr haf. Gall Stephen a Llinos gysgu'n dawel o wybod fod y buddsoddiad helaeth wnaethon nhw yn rhoi cyfle i blant chwarae'n ddiogel.

Cost y cynllun £12,500.00; Grant £7,500.00.

Tafarnwyr / Perchnogion Stephen a Llinos Evans
Rhif ffôn 01978 860753
Gwefan http://www.abbey-grange-hotel.co.uk/

pub is the hub
CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
THE PRINCE'S COUNTRYSIDE FUND
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government